Papur 13

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

22 Chwefror 2024

Annwyl Lywydd,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol - Bil Rhentwyr (Diwygio)

Ddydd Llun 19 Chwefror 2024, fe wnaethom drafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol uchod, a osodwyd yn y Senedd ar 30 Ionawr 2024.

Rydym o'r farn bod nifer o faterion pwysig yn codi o'r Memorandwm hwn, ac rydym am godi'r rhain yn uniongyrchol gyda Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd.

Er mwyn darparu ar gyfer sesiwn dystiolaeth, rydym yn gofyn am i'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad gael ei estyn i 26 Ebrill 2024 i gynnwys tair wythnos ar gyfer toriad y Pasg). Cafodd y dyddiad cau presennol, sef 15 Mawrth 2024, ei bennu gan y Pwyllgor Busnes ar 6 Chwefror 2024.

Yn ein barn ni, ni ddylai newid yr amserlen greu problemau ar gyfer amseriad unrhyw gynnig cydsyniad deddfwriaethol sydd i ddilyn, gan fod y Bil Rhentwyr (Diwygio) ar hyn o bryd yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ac nid yw wedi dechrau ei daith drwy Dŷ'r Arglwyddi eto.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**